

Is Bwyllgor Polisiau a Rheolau Sefydlog

Cofnodion Is Bwyllgor Polisiau a Rheolau Sefydlog gyfarfu am 6.30pm, nos Iau, Mai 1af, 2014 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol y Cynghorydd Brian W Ifans, Cadeirydd, y Cynghorwyr Margaret Griffith; Trefor Wyn Jones; Gwilym M Thomas a'r Clerc.

Roedd yr is bwyllgor yn ymgynnull i drafod rhai pwyntiau/geiriad oedd y cyfieithydd ar gyfer safle gwe y Cyngor wedi eu codi ynghylch y Rheolau Sefydlog. Roedd pawb wedi derbyn copiau ymlaen llaw.

Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau yn dderbyniol gan yr Is Bwyllgor a phenderfynwyd eu hanfon yn ôl at y cyfieithydd ar ôl iddynt gael eu diwygio.

Bydd angen eu hail gyflwyno i'r Cyngor llawn.

It is possible to get a translation of these minutes, contact the Clerk.